# Mi Welais Long yn Hwylio

Mi welais long yn hwylio,
Yn hwylio ar y lli.
Ac o! Roedd hon yn llawn ymron
O bethau tlws imi.

Roedd ynddi 'falau cochion
A stoc o eirin mair.
Ei hwyliau oedd o sidan gwyn
A'r llong ei hun o aur.

Mi welais long yn hwylio,
Yn hwylio ar y lli.
Ac o! Roedd hon yn llawn ymron
O bethau tlws imi.

Hwyaden oedd y capten
O'r enw Twm Siôn Jac,
A phan symudai'r llong drwy'r dŵr,
Fe ganai "Cwac, cwac, cwac!"

Mi welais long yn hwylio,
Yn hwylio ar y lli.
Ac o! Roedd hon yn llawn ymron
O bethau tlws imi.

O, hwyliodd o Gaernarfon,
Draw am Abersoch.
Y gwynt yn llenwi'r hwyliau gwyn,
A'r criw yn canu'n groch.

© 2020 S4C